Cherish

Nodyn canllaw grantiau

Made possible with Heritage Fund

NATIONAL CHURCHES TRUST

## Cyflwyniad

**Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn darllen y ddogfen hon cyn dechrau'r ffurflen ar-lein.**
Ar y tudalennau canlynol gwelwch y meini prawf cymhwysedd, canlyniadau'r rhaglen, manylion am sut i wneud cais a pha ddogfennau ategol y bydd eu hangen arnoch, rhai awgrymiadau da, yn ogystal â thelerau ac amodau unrhyw gais llwyddiannus am grant.

Mae'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol yn cefnogi mannau addoli Cristnogol ledled y Deyrnas Unedig sy'n gallu dangos ymgysylltiad cymunedol cryf a chynlluniau cadarn ar gyfer hyfywedd economaidd. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n dangos cynlluniau datblygedig ar gyfer yr adeilad, a gefnogir y tu hwnt i'r gynulleidfa, ac i'r dyfodol.

Os ydych chi'n dal i chwilio am yr ateb i rywbeth pan fyddwch chi'n cyrraedd y diwedd, fe allech chi hefyd edrych ar ein tudalen Cwestiynau Cyffredin.

Mae'r prosiect Cherish yn bosibl diolch i Chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ac fe'i cyflwynir mewn partneriaeth â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## Rhaglen grantiau Cherish

Gall y rhaglen hon ariannu:

- **prosiectau cynnal a chadw ac atgyweirio brys a hanfodol** sy'n costio rhwng £1,000 a £80,000 gan gynnwys TAW;
- costau tuag at **ddatblygu prosiectau** - datblygu prosiect adeiladu mewn eglwys megis astudiaethau dichonoldeb, arfarniadau opsiynau, gwaith ymchwiliol a gwaith datblygu hyd at Gam Cynllunio 1 RIBA. Cliciwch yma i ddarllen gwybodaeth ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr am ddatblygiad prosiectau.

Gallwn gynnig grantiau **o hyd at £10,000**. Ni fydd ein grantiau byth yn fwy na 50% o'r gost. Mae cynigion yn ddilys am chwe mis.

Gallwch weld mwy o fanylion a gwneud cais yma.

I barhau â chais rydych eisoes wedi’i ddechrau, cliciwch yma i gael mynediad at y safle ymgeisio.

Yn gywir ar 31 Awst 2023

Sicrhewch eich bod yn cadw llygad ar ein gwefan yn rheolaidd. Efallai y bydd gwybodaeth am grantiau’n cael ei newid ychydig dros amser, felly cadwch lygad ar ein gwefan i weld yr wybodaeth ddiweddaraf.

# Cymhwysedd

Rhaid i ymgeiswyr fodloni’r holl feini prawf cymhwysedd. Rydym yn ystyried pob cais ochr yn ochr ag amrywiaeth o feini prawf sgorio ac yn erbyn ceisiadau eraill ar yr adeg ymgeisio.

- Gall cynulleidfaoedd fod o unrhyw enwad Cristnogol a gall yr adeilad fod yn un rhestredig neu anrhestredig.
- Rhaid i'r adeilad fod yn **addoldy Cristnogol (ond nid yn gadeirlan)** wedi'i leoli yng Ngogledd Orllewin Lloegr (Cumbria, Swydd Gaerhirfryn neu Fanceinion Fwyaf yn unig), Cymru, neu'r Alban*.
- Mae'n rhaid i'r adeilad fod wedi'i adeiladu'n wreiddiol fel man addoli a rhaid iddo beidio â bod yn llai na 30 mlwydd oed.
- Nid ydym yn ariannu gwaith i adeiladau sydd wedi'u trosi, neuaddau eglwys, neu eglwysi preifat - megis capeli mewn ysbytai, hosbisau, ysgolion, carchardai a sefydliadau tebyg.
- Rhaid i'r gwaith arfaethedig fod **ar brif adeilad yr eglwys** neu'n estyniad iddo.
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn berchenogion yr eglwys neu fod â'r hawl i wneud y gwaith. Os nad yw’r eglwys yn rhan o brif enwad, neu wedi’i chofrestru gydag Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, rhaid iddi fod yn **elusen gofrestredig** yng Nghymru a Lloegr, a rhaid i unrhyw addoldy sydd ag incwm blynyddol o fwy na £100,000 gael ei gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Yn yr Alban, os ydych yn disgrifio eich hun fel elusen mae'n rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru gydag OSCR a bod ar Gofrestr Elusennau'r Alban.
- Rhaid i adeiladau fod **ar agor ar gyfer addoli cyhoeddus rheolaidd** am o leiaf chwe gwasanaeth y flwyddyn. Mae'n rhaid i adeiladau sydd wedi'u cau i'r cyhoedd fod â chynlluniau i ailagor ar gyfer addoli rheolaidd a mynediad cyhoeddus a chynulleidfa sy’n aros i ddefnyddio'r adeilad ar ôl i’r gwaith gael ei gwblhau.
- Rhaid i adeiladau fod ar agor i'r cyhoedd am o leiaf **100 o ddiwrnodau’r flwyddyn** yn ogystal ag amseroedd addoli, neu fodloni'r gofyniad hwn o fewn blwyddyn i gwblhau'r prosiect. Dywedwch wrthym os bydd angen trefniadau arbennig arnoch er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, megis dangos manylion deiliaid allweddau. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sydd ag oriau agor rheolaidd.
- Rhaid i brosiectau atgyweirio gael eu harwain, eu harolygu a'u goruchwylio gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau addas, fel arfer pensaer â chymwysterau proffesiynol (a restrir ar y Gofrestr Penseiri) neu syrfëwr adeiladu siartredig (MRICS neu FRICS). Pan fo’r adeilad yn rhestredig, **dylai’r** gweithiwr proffesiynol feddu ar **achrediad cadwraeth** o un o’r cynlluniau achredu cadwraeth canlynol ar y lefel a nodir:
    - Y Gofrestr o Benseiri sydd wedi'u Hachredu mewn Cadwraeth Adeiladau (AABC), wedi’i restru yng nghategori 'A'.
    - Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), wedi’i restru fel ‘Pensaer Cadwraeth Arbenigol’.

- Ymgorfforiad Brenhinol y Penseiri yn yr Alban (RIAS), wedi'i restru fel 'Uwch' ('Advanced').
    - Sefydliad Brenhinol Penseiri Iwerddon (RIAI), wedi'i restru fel 'Gradd I'
    - Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), wedi'i restru fel 'Achrediad Cadwraeth'
    - Sefydliad Siartredig y Technolegwyr Pensaernïol (CIAT), wedi'i restru fel 'Cadwraethwr Achrededig'.
- **Rhaid i'r gwaith beidio â chael ei ddechrau** cyn i'r cais ar-lein gael ei gyflwyno ond rhaid iddo fod yn gyraeddadwy o fewn blwyddyn ar y mwyaf i'r penderfyniad grant gael ei wneud
- Mae'n rhaid eich bod wedi sicrhau o leiaf **50%** o'r cyllid ar gyfer y prosiect yr ydych yn gwneud cais i ni amdano cyn i chi gyflwyno'ch cais i ni (cysylltwch â ni os oes angen cyngor codi arian arnoch).
- Rhaid bod gan brosiectau atgyweirio'r holl **ganiatâd** angenrheidiol cyn i chi wneud cais i ni. Gallai hyn gynnwys hawlenni gan eich corff llywodraethu h.y. Caniatâd wedi'i lofnodi gan y Canghellor, caniatâd Rhestr B gan Archddiacon (y caniatâd mwyaf cyffredin ar gyfer ceisiadau cynnal a chadw mewn eglwysi Anglicanaidd), Caniatâd Eiddo, awdurdodiad Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau Rhestredig neu gofnod Ymddiriedolwyr. Os nad oes angen caniatâd, hoffem weld cofnod Cyngor Plwyf Eglwysig/Ymddiriedolwyr yn nodi'r gwaith a chymeradwyaeth y Pwyllgor o hyd.
- Rhaid i chi fod wedi cael **2 ddyfynbris**.
- Rhaid i geisiadau ddod i law cyn y dyddiad cau a chynnwys yr holl ddogfennau y gofynnir amdanynt. **Rhaid i unrhyw ddogfennaeth nas darparwyd ar-lein ddod i law o fewn 5 diwrnod gwaith** neu rydym yn cadw'r hawl i wrthod y cais.

Er mwyn canfod cymhwysedd ar gyfer y rhaglen, gofynnir cyfres o gwestiynau i chi ar ddechrau unrhyw gais newydd i ni, gan adlewyrchu'r datganiadau uchod. Atebwch y rhain yn onest. Mae cyflwyno cais nad yw'n bodloni un o'r meini prawf yn debygol o arwain at gais a gaiff ei wrthod.

* Ar gyfer mannau addoli y tu allan i'r ardaloedd hyn, cyfeiriwch at ein rhaglenni grant rheolaidd Our grants | National Churches Trust.

## Yr hyn na allwn ei ariannu

- Prosiectau y tu allan i Ogledd Orllewin Lloegr (Cumbria, Swydd Gaerhirfryn neu Fanceinion Fwyaf yn unig), Cymru neu'r Alban. Am gyllid y tu allan i'r meysydd hyn, edrychwch ar ein rhaglenni grantiau eraill:https://www.nationalchurchestrust.org/get-support/grants
- Atgyweiriadau i foeleri, clociau, organau, paentiadau wal, clychau, henebion, ffitiadau a gosodiadau a phaneli solar neu waith cynnal a chadw sydd wedi'i drefnu ar eu cyfer;
- Gwres, goleuadau, ac elfennau clyweledol;
- Aildrefnu neu osod cyfleusterau;
- Adeiladu mannau addoli neu neuaddau eglwys newydd;
- Gwaith i waliau terfyn, llwybrau, mynwentydd, henebion mynwentydd neu feysydd parcio;
- Adfer gwydr lliw (oni bai bod atgyweiriadau brys i ymylon y ffenestri neu rimynnau plwm, neu os nad yw'r adeilad yn dal dŵr bellach);
- Arolygon archwilio rheolaidd, Adroddiadau Arolygu Pum Mlynedd, caniatâd, ffioedd caniatâd cynllunio;
- Costau staff presennol;
- Hyfforddiant mewn sgiliau/gwybodaeth cynnal a chadw;
- Ailaddurno;
- Amnewid ffabrig hanesyddol â deunyddiau newydd oni bai bod hyn yn cael ei gefnogi gan eich corff treftadaeth statudol e.e. Historic England, Cadw neu Historic Environment Scotland.

## Yr hyn y byddwn yn rhoi blaenoriaeth iddo

- Gwaith ar adeiladau sydd o bwys pensaernïol a hanesyddol;
- Prosiectau cynnal a chadw ac atgyweirio brys/hanfodol fel y dangosir mewn Adroddiadau Arolygu Pum Mlynedd (QIR), arolwg adeiladau neu adroddiad cyflwr diweddar;
- Mannau addoli a all ddangos bod ganddynt system cynnal a chadw addas, gan gynnwys cynllun cynnal a chadw, i warchod eich adeilad a'n buddsoddiad;
- Mannau addoli gydag oriau agor rheolaidd;
- Mannau addoli a all ddangos ymgysylltiad cymunedol cryf a chynlluniau cadarn ar gyfer hyfywedd economaidd.

Er nad yw'r rhain wedi'u rhestru fel blaenoriaethau penodol, mae'n bwysig i ni barhau i ddenu mwy o geisiadau gan enwadau nad ydynt yn Anglicanaidd a sicrhau bod gan ein cyllid wasgariad daearyddol. Gall hyn gyfrannu at ein penderfyniadau dyfarnu grantiau.

## Canlyniadau'r rhaglen

Rydym yn awyddus i eglwysi fod ar agor ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, ar gael i bawb. Er mwyn sicrhau bod ein cyllid yn canolbwyntio ar gael yr effaith fwyaf, a'n bod yn cyflawni ein dau nod allweddol a amlinellir yn ein strategaeth bresennol, dylai ymgeiswyr ddangos sut y bydd eu prosiect yn mynd i'r afael â'r rhain. Rydym hefyd yn gofyn am gynaliadwyedd amgylcheddol a chanlyniadau cymunedol a chymdeithasol.

- Adeiladau eglwysig yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn addasadwy ac mewn cyflwr da
  - *E.e. osgoi atgyweiriadau mawr costus, yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr 'mewn perygl', yn dal dŵr am 100 mlynedd arall, gwell mynediad cynnal a chadw, cynllun cynnal a chadw gwell ac ati.*
- Adeiladau eglwysig sy'n gynaliadwy, ar agor ac yn groesawgar
  - *E.e. bydd y gwaith yn sicrhau bod addoli a gweithgareddau rheolaidd yn gallu parhau; bydd y gwaith yn ein galluogi i agor y drws i ymwelwyr; bydd y gwaith yn galluogi mwy o ddefnyddwyr i gael mynediad i'r adeilad, yn mynd i'r afael â'r galw neu'r bylchau mewn gwasanaeth yn lleol, bydd y newidiadau'n amrywio incwm, bydd y newidiadau'n agor cyfleoedd i groesawu mwy o bobl/pobl wahanol, bydd y newidiadau'n ymgysylltu â mwy o wirfoddolwyr, ffurfio partneriaethau newydd ac ati.*

## Meini prawf sgorio

- Treftadaeth – arwyddocâd pensaernïol yr adeilad.
- Angen – y broblem y mae angen mynd i'r afael â hi – natur brys y prosiect oherwydd cyflwr neu gyfyngiadau, a'r angen am ein cyllid; angen ariannol fel y dangosir gan y cyfrifon; Mynegai Amddifadedd Lluosog, diffyg cyllid.
- Yr Achos dros fuddsoddi – beth yw'r achos dros ein cyllid y funud hon, yn y cylch hwn? A yw'r prosiect yn barod i ddechrau; os oes terfyn amser ariannu yn yr arfaeth neu grant presennol sydd ar fin dod i ben; potensial i'r gymuned godi arian ar sail ei maint ac anghenion ariannu eraill yn yr

ardal; os nodir bod yr adeilad mewn perygl; partneriaethau neu brosiectau arwyddocaol eraill yn yr ardal; oriau agor.

- Rheoli risg a chynllunio'r prosiect – lefel y cynllunio a wnaed e.e. tendrau/dyfynbrisiau a gafwyd, cyllid sydd gennych, cynllun cynnal a chadw ar waith, gweithiwr proffesiynol â'r cymwysterau addas yn arwain y prosiect os yw'n berthnasol; gwariant cynnal a chadw blynyddol; amserlenni realistig; cyflwr ariannol yr eglwys (risg cynaliadwyedd).
- Effaith ar dreftadaeth a'r gymuned – sut mae'r cais yn bodloni canlyniadau gofynnol y rhaglen i ddangos gwelliant a budd.


## Defnyddio ein porth ymgeisio




Gellir cyrchu'r ffurflen gais [yma](). Y tro cyntaf rydych yn defnyddio'r safle, bydd rhaid i chi 'Gofrestru' ('Register') – y tro nesaf y byddwch chi'n cyrchu'r wefan, byddwch chi'n mynd i 'Mewngofnodi' ('Login').

Pan fyddwch ch'n cofrestru, caiff e-bost dilysu ei anfon i'ch mewnflwch. Gwiriwch eich post sothach os nad yw'n cyrraedd. Efallai y bydd yn cymryd ychydig o funudau.


Pan fyddwch yn cyrchu'r safle, byddwch yn gweld dangosfwrdd. Dewiswch 'Apply' ar frig y sgrin, yna 'Start a New Application'. Yna dewiswch 'New Application' o dan 'Cherish Grants'.




Yn gyntaf, bydd angen i chi ateb y cwis cymhwysedd. Os byddwch yn llwyddo, byddwch yn symud ymlaen i'r Ffurflen Gais trwy Ddatganiad Preifatrwydd. Os byddwch yn methu, byddwch yn cael eich anfon yn ôl i ddechrau'r cwis.

## Y ffurflen gais ar-lein

Cliciwch ar bob un o'r adrannau i gyrchu'r cwestiynau. Pan fyddwch yn clicio ar yr adran nesaf, bydd y ffurflen yn cael ei chadw'n awtomatig. Ceisiwch ateb cymaint ag y gallwch.




Efallai y byddwch am weithio ar y ffurflen dros nifer o sesiynau. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r porth bydd angen i chi ddewis 'Continue this application'.

Mae seren goch wrth ymyl pob cwestiwn gorfodol. Mae testun cymorth ar gael lle ceir marc cwestiwn glas.





Mae angen lanlwytho nifer o ddogfennau yn ystod y cais - bydd angen i chi sicrhau bod y rhain ar gael i'w lanlwytho pan ofynnir i chi wneud hynny, ar ffurf PDF yn ddelfrydol - os nad yw'r rhain ar gael gennych, anfonwch nhw atom trwy'r adran 'Messages' yn eich porth o fewn y 5 diwrnod gwaith nesaf, neu anfonwch e-bost atom yn grants@nationalchurchestrust.org <mailto:grants@nationalchurchestrust.org>

- Cyfrifon – Copi o'ch set ddiweddaraf o gyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio, eu llofnodi neu eu harchwilio'n annibynnol i'n helpu i ddeall eich sefyllfa ariannol. Dylai'r rhain gynnwys adroddiad yr archwiliwr annibynnol. Yng Nghymru a Lloegr, os yw'r incwm yn uwch na £100,000, bydd angen i chi fod wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, neu ddarparu tystiolaeth eich bod wrthi'n cofrestru.
- Cyfrifon Cyfeillion – Os oes grŵp Cyfeillion gennych, copi o'i gyfrifon diweddaraf.
- 1 llun o'r tu allan a lluniau eraill o'r mater dan sylw – Mae angen llun pwrpasol o'r tu allan arnom, a nifer o luniau eraill o'r prif fater dan sylw yn unig, ar ffurf jpeg neu pdf, hyd at 10MB eu maint. Byddwn yn defnyddio'r rhain yn y papurau asesu ar gyfer ein Pwyllgor Grantiau ac, os bydd y cais yn llwyddiannus, at ddibenion cyhoeddusrwydd. Sicrhewch fod gennych ganiatâd i ddefnyddio'r lluniau cyn eu hanfon atom, a nodwch yn glir os oes angen unrhyw gredydau.
- Cynllun cynnal a chadw – Mae cynnal a chadw rheolaidd yn un o'n prif flaenoriaethau, felly rydym yn gofyn am gopi o'ch cynllun cynnal a chadw blynyddol ac, os nad oes gennych un ar waith eisoes, bydd yn ofynnol i dderbynwyr grantiau gyflwyno un fel amod dyfarniad a chyn i


daliadau gael eu rhyddhau. Mae cynlluniau cynnal a chadw yn amserlen flynyddol o gamau rheolaidd i gadw'r adeilad a'r tiroedd mewn cyflwr da. Mae gennym dempledi i chi eu golygu, a chyngor ac adnoddau ar ein gwefan yma.

- Caniatâd – Copi o'r caniatâd gan y corff llywodraethu h.y. Caniatâd wedi'i lofnodi gan y Canghellor, caniatâd Rhestr B gan Archddiacon (y caniatâd mwyaf cyffredin ar gyfer ceisiadau cynnal a chadw mewn eglwysi Anglicanaidd), Caniatâd Eiddo, awdurdodiad Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau Rhestredig neu gofnod Ymddiriedolwyr. Os nad oes angen caniatâd, hoffem weld cofnod Cyngor Plwyf Eglwysig neu Ymddiriedolwyr yn nodi'r gwaith a chymeradwyaeth y Pwyllgor o hyd.
- Adroddiad Arolwg Pum Mlynedd neu Arolwg Adeiladau neu Adroddiad Cyflwr – Adroddiad Arolwg Pum Mlynedd Arolwg Adeiladau diweddar sy'n amlygu'n glir y materion sydd angen sylw a pha mor brys ydynt.
- Manyleb y gwaith – yn bennaf ar gyfer ymgeiswyr am atgyweiriadau – wedi'i llunio gan y gweithiwr proffesiynol arweiniol ac yn manylu ar y gwaith a fydd yn cael ei wneud, gyda chostau os yw'n bosibl, neu'r adroddiad tendro.
- Briff ar gyfer unrhyw waith proffesiynol – yn bennaf ar gyfer ymgeiswyr am ddatblygiad prosiectau – os yw'n berthnasol i'r cyfnod prosiect sy'n ceisio cyllid. Os oes angen cyllid i gefnogi swydd dros dro newydd, bydd angen i ni hefyd weld tystiolaeth o broses recriwtio agored.
- 2 Ddyfynbris – rhaid i ymgeiswyr ddarparu **o leiaf ddau** dendr neu ddyfynbris cystadleuol am y gwaith y maent yn gwneud cais amdano (gan nodi'r dyfynbris a ffefrir).
- Llythyr oddi wrth bensaer/syrfëwr – hoffem weld llythyr o gefnogaeth gan bensaer neu syrfëwr proffesiynol cymwys sy'n cadarnhau'r angen am y gwaith sy'n cael ei wneud ac yn dangos cymeradwyaeth i'r ateb a amlinellir yn y dyfynbris a ffefrir.
- Gwybodaeth ychwanegol – unrhyw beth arall yr hoffech ei atodi, e.e. taflenni, cynllun gweithgarwch ac ati.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen – adolygwch yr hyn rydych wedi'i nodi (gallwch olygu unrhyw beth yn ôl yr angen)





Nodir 'Required' wrth ymyl unrhyw feysydd nas cwblhawyd eto. Bydd angen i chi ddewis 'Edit' a llenwi'r meysydd gwag, ac yna mynd yn ôl i'r panel 'Review'.



Ar ôl i'r holl wybodaeth ofynnol gael ei darparu, bydd blwch ticio'n ymddangos ar frig y panel i sicrhau eich bod wedi deall ein polisi preifatrwydd. Yna gallwch wasgu 'Submit'.


Byddwch yn cael e-bost awtomatig a neges yn eich porth ymgeisio o dan 'Messages'. Bydd y statws cyfredol yn ymddangos pan fyddwch yn dewis y cais yn eich dangosfwrdd, o dan 'Progress'.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen, dangosir eich cynnydd fel hyn:




## Awgrymiadau ar gyfer defnyddio'r ffurflenni cais ar-lein


Argraffu. Os ydych yn dewis y tab 'Submit and Review'– bydd eicon o argraffydd yn ymddangos yn y gornel dde uchaf. Dewiswch hwn i argraffu neu gadw'r ffurflen fel PDF.





Dolenni gwe. Nid yw pob cyfeiriad gwe yn hyperddolen. Efallai y bydd yn rhaid i chi gopïo a gludo dolenni i mewn i borwr gwe.

Mae'r cwestiynau sydd wedi'u nodi â seren goch * yn orfodol a rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r rhain. Os nad oes gennych unrhyw beth i'w nodi, ysgrifennwch 'dim' neu 'DdB'. Rhaid cwblhau cwestiynau gorfodol er mwyn symud ymlaen i'r tudalennau nesaf. Rydym yn annog ymgeiswyr i ateb cynifer o'r cwestiynau â phosibl. Os nad oes gennych unrhyw wybodaeth i'w rhoi mewn blwch, ac os nad yw'n orfodol, gallwch ei adael yn wag a mynd ymlaen i'r cwestiwn nesaf.


Cyfyngiad ar nifer y geiriau a nifer y nodau – bydd y rhain naill ai'n cael eu nodi gan y blwch neu'n ymddangos wrth i chi ddechrau ysgrifennu. Sicrhewch nad oes unrhyw fylchau dwbl neu fylchau cyn atalnodi, oherwydd gall y rhain gael eu cyfrif fel geiriau ychwanegol.





Lanlwytho ffeiliau – mwyafswm maint un lanlwythiad yw 10MB. Os ydych chi'n cael trafferth lanlwytho ffeiliau, ceisiwch ddileu bylchau ac atalnodi o enw'r ffeil.

Tablau - <u>Mae'n bwysig iawn bod tablau costau ac incwm y prosiect yn cael eu cwblhau</u>. Ni fyddwn yn gallu asesu eich cais heb yr wybodaeth hon. Ar gyfer costau'r prosiect, cliciwch ar 'Edit' ar y llinell a nodi disgrifiad byr os oes angen, y gost a'r TAW, yna cliciwch 'Save', a symud ymlaen i'r llinell nesaf. Ar gyfer incwm y prosiect, cliciwch ar y botwm 'plws', a llenwi'r manylion yn yr un ffordd, yna cliciwch 'Save'. Am ragor o awgrymiadau am lenwi'r tablau, darllenwch '[Llenwi Tablau Costau ac Incwm y Prosiect]' isod.




Ceisiadau a gyflwynir am yr eildro – Os ydych yn cyflwyno cais newydd ar ôl i chi gael eich gwrthod yn flaenorol, cymerwch fod yr achos yn cael ei asesu am y tro cyntaf ac ailgyflwyno'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom, gan sicrhau ei fod yn gyfredol, oherwydd na allwn warantu y bydd yr un aelod o staff yn adolygu'r cais. Hefyd, cofiwch fynd i'r afael ag unrhyw adborth a anfonwyd mewn unrhyw lythyr gwrthod blaenorol. Mae methu â gwneud hynny yn debygol o arwain at ganlyniad aflwyddiannus arall. Ni allwn warantu y bydd unrhyw ail gais yn llwyddiannus a byddwn ond yn disgwyl derbyn ail gais os gwnaed newid (megis newid i gost, incwm neu gynnig y prosiect), neu oherwydd ein bod wedi eich annog i wneud hynny.

## Awgrymiadau mewn perthynas â'r cwestiynau

2c: Gwlad/Rhanbarth: Dewiswch y wlad, neu'r rhanbarth yn Lloegr, y mae'r addoldy wedi'i leoli ynddo.

- CYMRU
- YR ALBAN
- GOGLEDD-ORLLEWIN: Cumbria, Manceinion Fwyaf, Swydd Gaerhirfryn

3a: Mae'r graddau rhestru yng Nghymru, Lloegr a'r Alban fel a ganlyn:

- Lloegr: I / II* / II  Gwiriwch yma: https://historicengland.org.uk/listing/the-list/
- Cymru: I / II* / II  Gwiriwch yma: https://cadw.gov.wales/advice-support?lang=en
- Yr Alban: A / B / C  Gwiriwch yma: www.historicenvironment.scot/advice-and-support/listing-scheduling-and-designations/listed-buildings/search-for-a-listed-building/

6a: Rhaid i brosiectau atgyweirio gael eu harwain gan weithiwr proffesiynol sydd â chymwysterau addas: pensaer â chymwysterau proffesiynol (a restrir ar y Gofrestr Penseiri), neu syrfëwr adeiladu siartredig (MRICS neu FRICS). Os yw'r adeilad yn rhestredig, rhaid i'r gweithiwr proffesiynol hefyd berthyn i un o'r cynlluniau achredu cadwraeth hyn:

- Y Gofrestr o Benseiri sydd wedi'u Hachredu mewn Cadwraeth Adeiladau (AABC), wedi'i restru yng nghategori 'A'.
- Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), wedi'i restru fel 'Pensaer Cadwraeth Arbenigol'.
- Ymgorfforiad Brenhinol Penseiri yn yr Alban (RIAS), wedi'i restru fel 'Uwch' ('Advanced').
- Sefydliad Brenhinol Penseiri Iwerddon (RIAI), wedi'i restru fel 'Gradd I'
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), wedi'i restru fel 'Achrediad Cadwraeth'
- Sefydliad Siartredig y Technolegwyr Pensaernïol (CIAT), wedi'i restru fel 'Cadwraethwr Achrededig'.

4k: Eglurwch beth yw'r broblem y mae angen mynd i'r afael â hi – a oes rhaid gwneud hynny? Pa mor brys yw'r prosiect ochr yn ochr â'r angen am ein harian? Hefyd, yr angen ariannol y gellir ei ddangos gan y cyfrifon a diffyg cronfeydd anghyfyngedig. Byddwn yn adolygu'r Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer yr ardal – esboniwch pa effaith y mae graddfa'r amddifadedd yn ei chael ar y gallu i godi arian a pham mae angen ein cyllid cyfyngedig arnoch o hyd.

5r: Beth yw'r achos dros ariannu'r prosiect hwn ar hyn o bryd? A yw'r prosiect yn barod i ddechrau, gyda chaniatâd ar waith a dyma'r darn olaf o gyllid sydd ei angen; os oes terfyn amser ariannu yn yr arfaeth neu grant presennol sydd ar fin dod i ben; beth yw'r potensial i'r gymuned godi arian ar sail ei maint ac anghenion ariannu eraill yn yr ardal / os oes cyrff eraill yn codi arian yn lleol; os nodir bod yr adeilad mewn perygl; os oes trefniadau partneriaeth lleol, neu brosiectau arwyddocaol eraill yn yr ardal.

## Llenwi Tablau Costau ac Incwm y Prosiect

### Tabl Costau'r Prosiect

Dylai tabl costau'r prosiect ddangos cyfanswm cost eich prosiect, wedi'i threfnu o dan y categorïau a restrir. Cofiwch gynnwys cyfanswm y costau ar gyfer y prosiect neu'r cam, hyd yn oed os nad yw rhai elfennau yn gymwys i gael ein cyllid.

Awgrymiadau:

- Nodwch rifau cyfan heb unrhyw atalnodi (bydd y system yn ychwanegu atalnodau at rifau mawr yn awtomatig).
- Dylai'r golofn 'cost' gynnwys y gost heb gynnwys TAW.
- Dylai'r golofn TAW gynnwys y TAW rydych yn disgwyl ei thalu. Peidiwch â nodi cyfradd y TAW na'r gost gan gynnwys TAW yn y golofn hon. Nodwch TAW hyd yn oed os ydych yn disgwyl ei hawlio yn ôl.
- Bydd y golofn 'Total incl. VAT' yn llenwi'n awtomatig gyda swm y colofnau Cost + TAW
- Sicrhewch eich bod yn cynnwys lwfans wrth gefn yn eich cyllideb
- Gellir defnyddio'r rhes 'Other' ar gyfer unrhyw gostau nad ydynt yn cyd-fynd â'r rhesi eraill. Peidiwch â defnyddio'r rhes hon ar gyfer TAW.
- Sylwch efallai na fydd rhai colofnau yn ymddangos ar sgriniau llai. Gallwch naill ai chwyddo allan i weld pob colofn, neu glicio ar y tri dot ar ochr dde'r rhes i weld beth rydych wedi'i nodi mewn unrhyw golofnau nad ydynt yn ymddangos.

Er enghraifft, gallai tabl sydd wedi'i lenwi edrych fel hyn:

| Project costs | Description | Cost | Total | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Professional fees | Architects fees | 1,000.00 | 1,200.00 | Edit | ··· |
| VAT: 200.00 | | | | | |
| Repair and conservation work | Roof repairs | 10,000.00 | 12,000.00 | Edit | ··· |
| Development costs | | | 0.00 | Edit | ··· |
| Contingency | 10% of repair costs | 1,000.00 | 1,200.00 | Edit | ··· |
| Inflation | 5% | 500.00 | 600.00 | Edit | ··· |
| Other | | | 0.00 | Edit | ··· |
| | | **12,500.00** | **15,000.00** | | |

## Incwm y Prosiect

Dylai tabl incwm y prosiect ddangos y gweithgarwch codi arian sydd eisoes wedi'i wneud ar gyfer y prosiect. Cliciwch ar y botwm + ar y gornel dde uchaf i ychwanegu llinell newydd. Ychwanegwch gynifer o linellau ag sydd angen. D.S. Mae cronfeydd wrth gefn yn cyfrif fel incwm, felly rhestrwch nhw yma.

Cwblhewch dabl incwm y prosiect gyda chyllid sydd heb ei sicrhau (h.y. yn yr arfaeth) a chyllid sydd wedi'i sicrhau. Rhowch rifau cyfan heb unrhyw atalnodi. Nodwch yr hyn yr ydych yn ei ymrwymo o'r cronfeydd wrth gefn, yr arian yr ydych wedi'i godi, yr holl grantiau eraill, benthyciadau ac ati, gan ychwanegu cynifer o linellau incwm ag sydd eu hangen. Os yw'r adeilad yn rhestredig, cofiwch gynnwys yr hyn yr ydych yn disgwyl gwneud cais amdano o'r cynllun grant Mannau Addoli Rhestredig.

Awgrymiadau:

- Nodwch rifau cyfan heb unrhyw atalnodi (bydd y system yn ychwanegu atalnodau at rifau mawr yn awtomatig).
- Cyllid sydd heb ei sicrhau yw cyllid nad yw wedi'i gadarnhau eto, megis rhoddion a addawyd neu geisiadau grant sy'n aros am benderfyniad.

- Cyllid sydd wedi'i sicrhau yw cyllid sydd wedi'i gadarnhau, megis rhoddion a gafwyd, cronfeydd wrth gefn yn eich cyfrif neu grantiau yr ydych wedi cael llythyr cynnig ar eu cyfer.
- Os yw'r adeilad yn rhestredig, cynhwyswch yr hyn yr ydych yn disgwyl gwneud cais amdano o'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig (LPWGS) - mae'n debygol mai hwn fydd yr holl TAW a dynnir ar y prosiect.
- Dylai'r golofn 'Income Stream' gynnwys prif ddisgrifiad o'r ffynhonnell ariannu – er enghraifft 'Grant' neu 'Codi Arian yn Lleol'.
- Gellir defnyddio'r golofn 'Description' i ychwanegu manylion, megis enw cyllidwr y grant, er y gofynnir i chi gadw hyn yn gryno. Os caiff rhywfaint o arian ei ddyrannu i elfennau penodol o'r prosiect, gellir nodi'r wybodaeth hon yma.
- Sylwch efallai na fydd y golofn 'Secured funds' yn ymddangos ar rai sgriniau. Gallwch naill ai chwyddo allan i weld pob un o'r pedair colofn, neu glicio ar y tri dot ar ochr dde'r rhes i weld yr hyn rydych wedi'i nodi mewn unrhyw feysydd nad ydynt yn ymddangos

Er enghraifft, gallai'r tabl edrych fel hyn:

| Income stream | Description | Unsecured funds | | |
|---|---|---|---|---|
| Local fundraising | | | Edit Delete | ⋯ |
| Secured funds: 10,000.00 | | | | |
| Grant | Local Landfill grant | | Edit Delete | ⋯ |
| Grant | Essex Churches Trust | 10,000.00 | Edit Delete | ⋯ |
| LPWGS | VAT reclaim | 48,000.00 | Edit Delete | ⋯ |

## Cyllid ychwanegol

O bryd i'w gilydd, mae'n bosib y gallem eich helpu i sicrhau cyllid ychwanegol gan gyllidwyr eraill yr ydym yn partneru â nhw ac sydd, o bryd i'w gilydd, yn ein gwahodd i wneud argymhellion iddynt (fel Sefydliad Wolfson – gweler isod). Er mwyn cael eich ystyried, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'ch diddordeb yng nghwestiwn 8c ar y ffurflen.

**Cronfeydd Sefydliad Wolfson ar gyfer Atgyweirio Ffabrig:** Ar hyn o bryd, rydym yn gweinyddu cyllid atgyweirio eglwysi ar ran Sefydliad Wolfson. Bydd ceisiadau cymwys a wneir trwy ein ffurflen grant Cherish yn cael eu hystyried ar gyfer dyfarniad ychwanegol gan Wolfson o hyd at £10,000.

I fod yn gymwys, rhaid i eglwysi fod yn adeiladau rhestredig Gradd I neu II* yng Nghymru neu Loegr, neu Radd A neu B yn yr Alban a heb gael cyllid Wolfson o fewn 5 mlynedd. Rhaid i brosiectau fod at ddiben gwaith atgyweirio brys a hanfodol. Ni ellir dyrannu cyllid Wolfson at ddiben gorbenion, costau gweinyddol, gwaith galluogi neu ddymchwel, gwaith sydd wedi dechrau cyn cynnig grant, neu TAW. Mae gwybodaeth hefyd ar ein gwefan yma.

## Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr am ddatblygiad prosiectau

Ein nod yw helpu eglwysi i ddatblygu prosiectau priodol, o ansawdd uchel, sydd wedi'u hymchwilio'n dda cyn cysylltu â chyllidwr grantiau mawr. Gellir defnyddio grant i ariannu gwaith ymchwiliol i ddeall yn well broblemau sy'n effeithio ar ffabrig, neu i asesu cyfleoedd a chwmpas ar gyfer gwaith, megis trwy adroddiad dichonoldeb, arfarniad opsiynau neu gynllun busnes, gyda'r bwriad o baratoi prosiect cyfalaf a fyddai'n gymwys ar gyfer ein rhaglen grantiau Mawr. Ni fyddwn yn ariannu prosiectau sydd eisoes mewn cam datblygu a ariennir gan gyllidwr grantiau mawr, na gwaith sy'n mynd y tu hwnt i Gam Cynllunio 1 RIBA. I ddarganfod mwy, ewch i www.ribaplanofwork.com/PlanOfWork.aspx <http://www.ribaplanofwork.com/PlanOfWork.aspx>.

Gellid defnyddio grantiau i dalu am gost cymorth proffesiynol i gynnal arolygon cyflwr manwl (nid Adroddiadau Arolygu Pum Mlynedd) neu ddrafftio'r dogfennau allweddol sydd eu hangen ar gyllidwyr megis cynlluniau gweithgarwch, neu gost cyflogi Rheolwr Prosiect i oruchwylio gweithwyr proffesiynol a pharatoi ceisiadau am gyllid.

Mae enghreifftiau o eitemau penodol hyd at yr hyn sy'n cyfateb i Gam Cynllunio 1 RIBA (paratoi a briffio) yn cynnwys:

- Cynlluniau a chostau pensaernïol (heb fod y tu hwnt i Gam Cynllunio 1 RIBA)
- Arolygon cyflwr
- Cyngor a hyfforddiant llywodraethu
- Cynllunio busnes
- Datganiadau cadwraeth
- Cyngor ar ymgysylltiad neu weithgareddau cyhoeddus

**Os yw'ch cais yn cynnwys amser staff:** Ni ddylai'r person fod yn aelod o gorff llywodraethu'r addoldy. Ar gyfer penodiadau allanol, dylai'r sefydliad hysbysebu ar y farchnad agored, cyfweld ag o leiaf dau ymgeisydd a rhoi polisi cyfle cyfartal ar waith. Dylid cyflwyno briff yn amlinellu tasgau a chyfrifoldebau'r Rheolwr Prosiect gyda'r cais. Dylai fod yn glir a chynnwys rhaniad penodol mewn cyfrifoldebau rhwng y Rheolwr Prosiect, y clerigwyr/warden yr eglwys a'r tîm proffesiynol ehangach.

**Os yw eich cais yn cynnwys gwaith i'w wneud gan bensaer neu syrfëwr yn y cam hwn:** mae rhaid iddynt feddu ar achrediad cadwraeth os yw'r adeilad yn rhestredig. Rhaid bod prawf o dendro yn y 5 mlynedd diwethaf.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd eich cais yn cael ei asesu gan swyddogion yn erbyn ein blaenoriaethau, ein meini prawf sgorio a'n heffeithiau, ac yn erbyn ymgeiswyr eraill yn y cylch cyllido. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth drwy'r gwasanaeth Negeseuon yn eich porth ymgeisio - rydym yn argymell edrych ar y porth yn rheolaidd, er y dylech gael hysbysiad e-bost os anfonir neges atoch.

Fel arfer, byddwn yn cysylltu â chi gyda newyddion am eich cais drwy e-bost neu'r post o fewn pythefnos i gyfarfod y Pwyllgor Grantiau. Bydd angen i'r rhai y cynigir grantiau iddynt ddychwelyd

ffurflen dderbyn wedi'i llofnodi o fewn 30 diwrnod. Bydd **amodau** diweddaraf **y grant** yn cael eu nodi yn y dogfennau cynnig. Mae’r rhain yn debygol o gynnwys:

1. Cyflwyno manylion am ddim i’r adran Explore ar ein gwefan;
2. Arweinir y prosiect gan weithiwr proffesiynol cymwys gydag achrediad cadwraeth os yw'r adeilad yn rhestredig
3. Bod ar agor am o leiaf 100 o ddiwrnodau’r flwyddyn yn ogystal ag addoli, o fewn blwyddyn ar ôl cwblhau'r prosiect;
4. Mynychu o leiaf ddwy sesiwn hyfforddi rithwir yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol sy'n berthnasol i'ch prosiect o fewn blwyddyn i'ch cais;
5. Cydnabod grant Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi mewn deunyddiau printiedig ac ar wefan, a helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r dyfarniad;
6. Cydnabod Chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn gyhoeddus, gan ddefnyddio logos Cronfa'r Loteri (a ddarperir);
7. Dychwelyd adroddiad adborth flwyddyn ar ôl cwblhau'r prosiect a chymryd rhan yn y gwaith o werthuso prosiect Cherish
8. Os bydd yr addoldy ar gau ar gyfer addoli o fewn 10 mlynedd ar ôl cael taliad grant, adroddwch hyn i'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol yn ddi-oed. Efallai y byddwn yn gofyn am ad-daliad llawn neu rannol o'r grant;
9. Hawlio'r grant o fewn 6 mis ar ôl dyddiad y penderfyniad.

## Hawliadau am dâl

Bydd hyn yn cael ei amlinellu yn y llythyr cynnig o ran proses a pha wybodaeth ategol sydd ei hangen arnom. Bydd yn cynnwys dychwelyd ffurflen hawlio taliad gyda gwybodaeth am y prosiect a'i effaith. Bydd angen i hawliadau gael eu hategu gan dystysgrif interim pensaer neu syrfëwr siartredig (fel y’i henwir yn y cais gwreiddiol) neu, ar gyfer grantiau datblygu prosiectau, anfonebau a chopïau o unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd gyda chymorth ein grant. Os bydd costau wedi gostwng ar ôl derbyn anfonebau, byddwn yn lleihau ein cynnig grant i 50% o'r costau yr aed iddynt, heb gynnwys TAW.

## Aelodaeth Eglwysig

Yn ddiweddar rydym wedi lansio ein cynlluniau Aelod Eglwysig ac Aelod Eglwysig+ newydd. Gall aelodau gael mynediad at ystod o fuddion, gan gynnwys tudalen ar ein gwefan. Os ydych yn cael grant dros £3,000 gennym, bydd eich eglwys yn cael aelodaeth Aelod Eglwysig+ AM DDIM am ddwy flynedd. Os ydych yn cael grant o hyd at £3,000 gennym, bydd eich eglwys yn cael aelodaeth Aelod Eglwysig + am un flwyddyn. Os ydych eisoes yn aelod, byddwn yn ymestyn cyfnod eich aelodaeth bresennol. Cewch ragor o fanylion am ein haelodaeth eglwysig yma <https://www.nationalchurchestrust.org/church-membership>. Mae ein gwefan yn cynnwys dros 4000 o eglwysi. Os ydych yn cael grant gennym, bydd angen i chi gyflwyno cofnod ar gyfer eich eglwys er mwyn ein galluogi i hyrwyddo eich diwrnodau agored fel rhan o'n tudalennau ExploreChurches. Os hoffech chi gyflwyno'ch eglwys nawr, gallwch chi wneud hynny yma <https://www.nationalchurchestrust.org/explore/your-church/promote>.

## Sylwadau olaf

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ychwanegol, ewch i'r dudalen Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan, neu gysylltu â'r Tîm Cymorth Cherish:

Gogledd-Orllewin Lloegr: Matthew Maries, matthew.maries@nationalchurchestrust.org 07707 149287
Yr Alban: Karen Hind, karen.hind@nationalchurchestrust.org 07707 149288
Cymru: Gareth Simpson, Gareth.simpson@nationalchurchestrust.org 07707 149286

Yn y cyfamser, hoffem eich annog i ystyried ffynonellau cyllid eraill; mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael ar ein gwefan.

Gallwch gadw mewn cysylltiad trwy gofrestru i gael ein newyddlen electronig fisol. Gallwch hefyd danysgrifio fel un o'n Cyfeillion.

Thanks to National Lottery players
heritagefund.org.uk
@HeritageFundUK
Made possible with Heritage Fund